Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant | St David's Adoption Service

# EIN PWRPAS: CANLLAW I BAWB

## GWASANAETH MABWYSIADU DEWI SANT: YR HYN A WNAWN

**Recriwtio a hyfforddi:** Rydym yn dod o hyd i bobl sydd eisiau mabwysiadu ac yn eu hasesu.

**Cymorth Parhaus:** Rydym yn darparu cymorth cyn ac ar ôl mabwysiadu, gan gynnwys cyfarfodydd grŵp, digwyddiadau hwyliog, a hyfforddiant arbennig.

**Trefniadau Cyswllt:** Rydym yn helpu i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd geni pan fo angen.

**Mynediad at Gofnodion Geni**

- **Gwasanaeth Gwybodaeth:** Rydym yn helpu oedolion i gael mynediad at eu cofnodion geni.
- **Gwasanaeth Cyfryngol:** Rydym yn helpu i gysylltu oedolion mabwysiedig â'u teuluoedd geni os dymunant.

**Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd:** Mae gennym wasanaeth unigryw – i blant sydd wedi bod yn aros am amser hir am deulu neu sydd ag anghenion ychwanegol. Rydym yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a gwasanaethau mabwysiadu rhanbarthol i ddarparu hyn.



**Ein Gwasanaeth AFKA Cymru**

Yn cynnig **Hyfforddiant, Ymgynghoriaeth a Chymorth** i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â mabwysiadu, maethu a gofal teuluol.

## PWY RYDYN NI'N EU HELPU

**Darpar Fabwysiadwyr:** Rhaid i bobl sydd am fabwysiadu fod yn 21 oed neu'n hŷn.

**Plant:** Rydym yn cefnogi plant o enedigaeth hyd at 18 oed.

**Oedolion Mabwysiedig a Pherthnasau:** Rydym yn helpu oedolion a fabwysiadwyd a'u teuluoedd yn ogystal â rhieni geni sy'n chwilio am eu plant mabwysiedig.

**Ein Gwasanaeth Maethu**

Mae ein gwasanaeth maethu yn cynnig **recriwtio** gofalwyr maeth pwrpasol, **dod o hyd i deuluoedd a'u paratoi** ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae'n cynnig cefnogaeth arbenigol i blant sy'n symud lleoliadau neu'n symud cartref i'w teulu geni.



## EIN HYMRWYMIAD I CHI

**Cymorth Gydol Oes:** Mae mabwysiadu yn daith gydol oes. Rydym yma i helpu pryd bynnag y bydd ein hangen arnoch, hyd yn oed flynyddoedd lawer ar ôl mabwysiadu.

**Mae Eich Llais yn Bwysig:** Rydym yn gwrando ar yr hyn sydd gennych chi a'ch teulu i'w ddweud ac yn gweithio i sicrhau bod eich anghenion yn cael eu diwallu.

**Amgylchedd Diogel a Chynhwysol:** Rydym yn croesawu pobl o bob cefndir, ac rydym yn sicrhau bod pawb yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u cynnwys.

## CYMORTH MABWYSIADU

**Cymorth i Deuluoedd:** Rydym yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i nodi eu hanghenion bob cam o'r broses fabwysiadu.
**Hyfforddiant:** Rydym yn darparu hyfforddiant i helpu teuluoedd i ddeall a chefnogi eu plant mabwysiedig.

## DIOGELU

Rydym wedi ymrwymo i gadw pawb yn ddiogel ac yn cynnig hyfforddiant ar ddiogelu a datblygiad plant.

## EIN TÎM

**Cymwysterau Staff**

- **Arweinwyr Profiadol:** Mae ein tîm yn cynnwys gweithwyr proffesiynol â graddau uwch mewn gwaith cymdeithasol a rheolaeth.
- **Gweithwyr Cymdeithasol Arbenigol:** Mae ein gweithwyr cymdeithasol wedi'u hyfforddi mewn technegau therapiwtig i gefnogi teuluoedd.

**Goruchwyliaeth a Hyfforddiant**

- **Goruchwyliaeth Rheolaidd:** Mae ein tîm yn derbyn goruchwyliaeth a hyfforddiant rheolaidd i sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel.
- **Dysgu Parhaus:** Rydym yn annog staff i wella eu sgiliau'n barhaus trwy hyfforddiant ychwanegol.

## CADW COFNODION

**Storio Diogel:** Rydym yn cadw'r holl gofnodion yn ddiogel ac yn saff yn unol â chyfreithiau diogelu data.

**Storio Hirdymor:** Mae cofnodion mabwysiadu yn cael eu storio am 100 mlynedd i sicrhau mynediad yn y dyfodol.

## ADBORTH A GWELLIANT

**Gwrando Arnoch Chi:** Rydym yn defnyddio adborth gan deuluoedd a staff i wella ein gwasanaethau.

**Gwelliant Parhaus:** Rydym yn ymdrechu i ddysgu a thyfu o bob profiad.

## LLYWODRAETHU A SICRHAU ANSAWDD

- **Monitro Ansawdd:** Rydym yn adolygu ein gwasanaethau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn bodloni safonau uchel.
- **Cyfranogiad mewn Gwneud Penderfyniadau:** Mae defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau i helpu i arwain ein gwasanaethau.



## CWYNION A CHANMOLIAETH

- **Cyfathrebu Agored:** Rydym yn croesawu adborth ac mae gennym weithdrefn gwyno ffurfiol i fynd i'r afael â phryderon.
- **Dathlu Llwyddiant:** Rydym yn rhannu canmoliaeth gyda'n tîm i hyrwyddo arferion gorau.

**Faint o bobl ydyn ni'n eu helpu?**

**Ymholiadau Mabwysiadu:** Mae dros 300 o bobl yn holi am fabwysiadu bob blwyddyn.

**Mabwysiadwyr Cymeradwy:** Mae tua 20 o deuluoedd yn cael eu cymeradwyo bob blwyddyn.

**Gwasanaethau Cymorth:** Mae tua 30 o deuluoedd yn derbyn cymorth ôl-fabwysiadu bob blwyddyn.

## DOLENNI

- **Datganiad o Ddiben:** Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth fanwl am Wasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant a'i ddiben fel Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol.
- **Taflen "Dweud Eich Dweud":** Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am sut allwch chi siarad â ni yn Dewi Sant os oes gennych chi adborth yr hoffech ei roi i ni.

## SUT I GYSYLLTU

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch, gallwch chi neu'ch teulu gysylltu â ni unrhyw bryd. Rydym yma i'ch helpu a sicrhau bod eich taith fabwysiadu yn un hapus a llwyddiannus.

**Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant**
**Tŷ Lambourne, Parc Busnes Llanisien, Caerdydd, CF14 5GL**

**029 2066 7007**

**info@stdavidscs.org**

Rydym wedi ein cofrestru gydag **Arolygiaeth Gofal Cymru.**

**www.arolygiaethgofal.cymru/cysylltwch-â-ni**

**Unigolyn Cyfrifol:** Jason Baker (Prif Swyddog Gweithredol)

Cofiwch, yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant, dydych chi ddim ar eich pen eich hun. P'un a ydych chi'n ystyried mabwysiadu neu'n chwilio am gymorth ar ôl mabwysiadu, rydym ni yma i helpu.

*Swyddfa Gofrestredig: Tŷ Lambourne, Parc Busnes Llanisien, Caerdydd CF14 5GL Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant wedi'i chofrestru fel elusen gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (Rhif Cofrestru: 509163) a chwmni cyfyngedig trwy Warant (Cofrestrwyd Caerdydd 1546688) Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant yw enw brand gwasanaeth mabwysiadu Cymdeithas Plant Dewi Sant.*